Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
Higher Education Funding Council for Wales

Prifysgol Aberystwyth

**Annex Ai**

# Cais Cynllun Ffioedd a Mynediad 2017/18

| | |
|---|---|
| **Institution Applicant name:** | Prifysgol Aberystwyth |
| **Applicant address:** | Y Dderbynfa, Campws Penglais, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3FL |

| | Main contact | Alternate contact |
|---|---|---|
| **Contact name:** | Yr Atrho Elizabeth Treasure | Yr Athro John Grattan |
| **Job title:** | Is-Ganghellor | Is-Ganghellor Gweithredol |
| **Telephone number:** | 01970 622010 | 01970 622011 |
| **Email address:** | vice-chancellor@aber.ac.uk | jpg@aber.ac.uk |

**Fee and Access Plan - Guidance note**

HEFCW requires Fee and Access Plan applicants to provide short, precise, quantifiable information and verifiable data. If the information and data provided is not sufficiently clear, or it is difficult for HEFCW to reconcile with other information it holds, HEFCW may need to contact applicants for further information and/or clarification to enable us to understand the application more fully.

Published HEFCW circulars (including (W15/12HE, W16/03HE , W16/07HE, W16/10HE) and HEFCW's 2017/18 Fee and Access Plan guidance provide information on: the Addysg Uwch Wales (2015) Act and associated Regulations; Welsh Government Guidance to HEFCW on Fee and Access Planning; and HEFCW's 2017/18 Fee and Access Plan Guidance. These documents inform the Fee and Access Plan application process.

| Institution applicant name: | Prifysgol Aberystwyth |
|---|---|

# Cynllun Ffioedd a Mynediad 2017/18

# Cynllun Ffioedd a Mynediad: ffocws a chynnwys

## CRYNODEB GWEITHREDOL

Mae ein Cynllun Ffioedd a Mynediad 2017/18 yn canolbwyntio ar becyn o weithgareddau a mentrau â'r nodau canlynol:

- Gwella ansawdd amgylchedd dysgu ac addysgu ein myfyrwyr.
- Chwalu rhwystrau at astudio, boed ariannol, cymdeithasol neu ffisegol.
- Sicrhau cymorth o ansawdd uchel i wella cyfraddau cadw a sicrhau bod myfyrwyr yn gallu gwneud y gorau o'u hamser yn y Brifysgol
- Gwella dysgu ar-lein, gan gynnwys cipio darlithoedd a darparu adnoddau TG cyfoes
- Buddsoddi mewn cynlluniau i wella cyflogadwyedd graddedigion.

Dewiswyd y gweithgareddau a gefnogir drwy'r cynllun er mwyn datblygu llinell amser o gymorth i'n holl fyfyrwyr o'r cam ymgeisio hyd at raddio a chyflogaeth neu astudiaethau pellach. Mae'r Cynllun Ffioedd a Mynediad yn adlewyrchu ein cenhadaeth sef sicrhau bod yr holl fyfyrwyr a allai elwa o Addysg Uwch yn gallu gwneud hynny a bod ein graddedigion yn meddu ar y sgiliau sydd eu hangen i ffynnu a rhagori.

## LLAIS Y MYFYRIWR

Mae Undeb Myfyrwyr Aberystwyth yn goruchwylio tîm o 300 o gynrychiolwyr myfyrwyr academaidd, a etholir bob blwyddyn i gynrychioli meysydd pwnc, categorïau myfyrwyr (e.e. myfyrwyr Cyd Anrhydedd), grwpiau blwyddyn neu gyrsiau unigol. Mae hyn yn sicrhau bod y profiad dysgu yn Aberystwyth yn cael ei ffurfio'n gyson gan lais y myfyriwr. Mae'r cynrychiolwyr hyn yn hanfodol i ddatblygiad parhaus y Brifysgol. Uwchlaw'r 300 cynrychiolydd academaidd ceir 12 Cynrychiolydd Athrofa sy'n adrodd i Swyddog Addysg Undeb y Myfyrwyr.

Roedd y broses Ymgysylltu Myfyrwyr â'r Cynllun Ffioedd a Mynediad fel a ganlyn:

a) Mae'r Cynllun Ffioedd a Mynediad yn seiliedig ar raglen gwella aml-ffrwd Prifysgol Aberystwyth - y Cynllun Llwyddiant Myfyrwyr, sy'n rhaglen o weithgareddau i wella addysgu a dysgu ar draws y brifysgol, sy'n ffurfio cerbyd ar gyfer gweithredu Strategaeth Dysgu ac Addysgu'r Brifysgol.

b) Mae cynrychiolwyr y myfyrwyr wedi cyfrannu at y Cynllun Llwyddiant Myfyrwyr ar bob ffrwd gwaith briodol yn y prosiect. Mae'r cynrychiolwyr hyn wedi chwarae rhan bwysig gan gyfrannu at ganlyniadau dymunol y Cynllun Llwyddiant Myfyrwyr. Er enghraifft, roedd ymgysylltu â myfyrwyr yn elfen

bwysig yn y penderfyniadau ar fuddsoddi mewn e-adborth, safonau gofynnol Blackboard a defnydd gwell o recordio darlithoedd Panopto.

c) Mae sawl elfen o’r Cynllun Llwyddiant Myfyrwyr wedi’u llywio gan ddull prifysgol-gyfan o ymgysylltu â myfyrwyr a elwir yn ‘Rho Wybod Nawr’, sy’n wahoddiad agored i’r holl fyfyrwyr, a chyfres o arolygon ar lefel modiwl a gaiff eu dosbarthu i’r holl fyfyrwyr ail a thrydedd flwyddyn. Bu menter ‘Rho Wybod Nawr’ yn weithredol yn 2015/16 gan wahodd myfyrwyr i awgrymu ffyrdd y gellid gwella gweithgareddau a phrosesau’r Brifysgol. Yn ogystal â’r wefan agored lle gallai myfyrwyr gyfrannu syniadau a sylwadau, trefnwyd arolygon wedi’u cydlynu’n ganolog ar gyfer pob modiwl, gan alluogi llawer iawn o ddata a gwybodaeth i lywio agweddau adrannol a chyffredinol y Brifysgol at wella profiad y myfyriwr. Mae’r wybodaeth hon wedi bwydo fersiynau pellach o’r Cynllun Llwyddiant Myfyrwyr.

d) Mae Pwyllgor Gweithredol Undeb y Myfyrwyr yn cyfarfod yn rheolaidd gyda Grŵp Gweithredol y Brifysgol. Maen nhw wedi trafod y Cynllun Ffioedd a Mynediad gyda Grŵp Gweithredol y Brifysgol, ac wedi cytuno y dylid cynnwys llawer o elfennau’r Cynllun Llwyddiant Myfyrwyr yn y Cynllun Ffioedd a Mynediad.

e) Yn ogystal, yn ystod cyfnod drafftio’r Cynllun Ffioedd a Mynediad, cynhaliwyd cyfarfod estynedig rhwng staff y brifysgol oedd yn drafftio’r cynllun ar ran y Grŵp Gweithredol a grŵp o fyfyrwyr a gynullwyd gan yr Is-Lywydd Sabothol, Dysgu ac Addysgu. Rhoddwyd cyfle i Gynrychiolwyr Academaidd yr Athrofeydd wneud sylwadau ar bob adran o’r cynllun. Cafodd eu sylwadau eu cynnwys ym mhroses drafftio terfynol y cynllun a gyflwynwyd i’r Cyngor (sydd â chynrychiolaeth myfyrwyr drwy lywyddion Undeb y Myfyrwyr ac Undeb Myfyrwyr Cymraeg Aberystwyth) ym mis Mai.

f) Ceir cynrychiolaeth myfyrwyr ar y Cyngor sy’n trafod ac yn cytuno’n derfynol ar y Cynllun Ffioedd a Mynediad.

*Cyfraniad llais y myfyriwr, a gwaith partneriaeth, at lywodraethu ac ansawdd:*
Mae Prifysgol Aberystwyth yn cydnabod pwysigrwydd cynrychiolaeth myfyrwyr effeithiol ar sawl lefel o fewn ein strwythur wrth gyfrannu at lwyddiant myfyrwyr a chyfoethogi profiad y myfyriwr. Mae ein Siarter Myfyrwyr (https://www.aber.ac.uk/en/governance/su/student-charter/) yn crisialu hyn gydag ymrwymiad i gynnwys cynrychiolwyr myfyrwyr fel partneriaid cyflawn yn ein pwyllgorau a’n strwythurau. Ar y lefel uchaf, mae cyfarfodydd misol wedi’u cynnal rhwng Grŵp Gweithredol y Brifysgol ac Undeb y Myfyrwyr ers 2011/12, wedi’u cadeirio am yn ail gan yr IG a llywydd Undeb y Myfyrwyr. O fewn strwythur ffurfiol y Brifysgol ceir cynrychiolwyr myfyrwyr a benodir gan Undeb y Myfyrwyr ar y mwyafrif o’n prif bwyllgorau, gan gynnwys y Cyngor a’i is-bwyllgorau, y Senedd (sef y prif gorff sy’n gyfrifol am y Cynllun Llwyddiant Myfyrwyr) yn ogystal â chynrychiolwyr ar lefel yr Athrofeydd sy’n cymryd rhan mewn trafodaethau ar elfennau allweddol o sicrwydd ansawdd (gan gynnwys cymeradwyo cynlluniau astudio newydd a’u monitro a’u hadolygu’n flynyddol) a chynrychiolwyr adrannol sy’n cymryd rhan yn y Pwyllgorau Ymgynghorol Staff Myfyrwyr i godi pryderon myfyrwyr. Roedd adborth myfyrwyr ar

gyflogadwyedd yn sbardun ar gyfer gwell buddsoddi yn ein hadran gyrfaoedd, wrth i fyfyrwyr ddynodi angen am gysylltiadau gyrfaoedd wedi'u lleoli ym mhob un o'n 5 Athrofa.

Mae'r Cynllun Llwyddiant Myfyrwyr a'r Cynllun Ffioedd a Mynediad newydd yn adlewyrchu egwyddor graidd *Daganiad Wise Wales ar Bartneriaeth ar gyfer Addysg Uwch* y dylai '*myfyrwyr fod yn gyfranogwyr gweithredol yn y broses ddysgu, yn hytrach na derbyn gwybodaeth yn oddefol'.*

- Rydym ni wedi ceisio sicrhau bod newidiadau'n cael eu gwneud a fydd yn parhau i alluogi myfyrwyr i fod yn bartneriaid yn eu dysgu.

- Elfen allweddol o hyn yw newidiadau i'r system Tiwtor Personol, sydd i'w peilota yn 16/17, a'u gwreiddio yn ystod 2017/18, gyda mwy o bwyslais ar agwedd goetsio lle bydd y Tiwtor Personol a'r sawl sy'n cael ei diwtora'n gweithio gyda'i gilydd ar set o feysydd a gytunir sydd wedi'u cynllunio i gefnogi llwyddiant y myfyriwr.

- Bydd cyflwyno mwy o fesurau dadansoddi dysgwyr drwy ddangosfwrdd tiwtor personol yn cyfoethogi'r broses ddysgu ddwy ffordd yn fawr. Bydd hyn yn galluogi myfyrwyr i drafod eu presenoldeb, perfformiad a chanlyniadau dysgu arfaethedig gyda'u tiwtor personol a datblygu dulliau i'w helpu i wella eu perfformiad.

- Dull partneriaeth sydd hefyd wrth wraidd y fenter Trywydd Gyrfa newydd, fydd yn annog myfyrwyr i weithio'n agos gyda'r gwasanaeth gyrfaoedd a gyda'u tiwtoriaid personol drwy gydol eu gyrfa prifysgol i ddatblygu eu cyflogadwyedd a sicrhau bod ein darpariaeth yn addasu i anghenion a dyheadau ein corff myfyrwyr.

### *Sut caiff lefelau ffioedd, gan gynnwys lefelau ffioedd cyfanredol, eu cyfleu i'r myfyrwyr:*

Anfonir llythyrau unigol at fyfyrwyr fel rhan o'r broses dderbyn lle caiff lefel y ffi ar gyfer eu cwrs ei chadarnhau. Caiff ffioedd, bwrsariaethau a dyfarniadau hefyd eu hysbysebu'n eang drwy ein Diwrnodau Agored a'n Diwrnod Ymweld a thrwy ein cyflwyniadau Diwrnod Agored rhithiol ar y we. Caiff manylion am y ffioedd a'r cymorth ariannol sydd ar gael eu cynnwys yn y llyfryn 'Gwybodaeth i Ymgeiswyr Llwyddiannus' a anfonir drwy'r post at ymgeiswyr wrth wneud cynnig.

Mae cyfathrebu ffioedd i ddarpar ymgeiswyr, yn enwedig y rheini o gefndiroedd ehangu mynediad a allai fod yn fwy gwrthwynebus i ffioedd, yn hanfodol er mwyn sicrhau bod myfyrwyr yn gwneud dewis gwybodus, hyderus am y Brifysgol ac rydym ni'n egluro'r lefelau ffioedd a'r cymorth sydd ar gael i fyfyrwyr drwy ein gweithgareddau cyswllt ysgolion, gan gynnwys cyflwyniadau i ysgolion a cholegau ac fel rhan o'n hymrwymiad i Blant sy'n Derbyn Gofal.

Mae lefelau ffioedd pob cwrs a'r ddarpariaeth bwrsariaeth sydd ar gael hefyd ar gael drwy ein tudalennau gwe ffioedd a bwrsariaethau a'n Setiau Gwybodaeth Allweddol.

*Cyfleoedd partneriaeth a myfyrwyr y cynllun ffioedd a mynediad*

Gelwir Cynllun Ffioedd a Mynediad Prifysgol Aberystwyth ar gyfer 2017/18 yn Gynllun Ffioedd a Mynediad ar gyfer Llwyddiant Myfyrwyr ac mae'n adlewyrchu agwedd o bartneriaeth at wella'r amgylchedd dysgu gyda'n myfyrwyr ac ar eu cyfer. Datblygwyd y Cynllun Llwyddiant Myfyrwyr, ein dull aml-ffrwd o wella profiad y myfyriwr a llwyddiant ein myfyrwyr a'n graddedigion, dros hanner cyntaf 2015/16 gyda mewnbwn academaidd cryf a gan fyfyrwyr. Drwy ein prosiect llais y myfyriwr, Rho Wybod Nawr, rydym ni wedi dynodi meysydd i'w blaenoriaethu ar gyfer datblygu a chyfoethogi.  Gyda chymorth timau o staff academaidd a chymorth ar 17 gweithgor, gyda chynrychiolaeth Undeb y Myfyrwyr ar bob un, mae'r Cynllun wedi gweld gwelliannau, ymhlith meysydd eraill, i'r system Tiwtora Personol, cymorth i Fyfyrwyr Cyd Anrhydedd, cymorth sgiliau ar-lein, e-gyflwyno ac adborth, datblygu cymunedol a chymorth cyflogadwyedd a sgiliau).

Mae Cynllun Ffioedd a Mynediad 2017/18 yn adeiladu ar y gwaith hwn, gan fabwysiadu blaenoriaethau'r Cynllun Llwyddiant Myfyrwyr i'w arwain er mwyn sicrhau bod y materion a godir gan ein myfyrwyr, yr oedden ni'n mynd i'r afael â nhw drwy'r Cynllun Llwyddiant Myfyrwyr, yn cael cymorth pellach drwy'r gweithgareddau a gynhwysir yn y Cynllun Ffioedd a Mynediad.

Mae'r Brifysgol yn cydnabod gwerth gwirfoddoli fel rhan o brofiad y myfyriwr a datblygu sgiliau trosglwyddadwy ar gyfer cyflogaeth yn y dyfodol. Mae cynlluniau ffioedd blaenorol wedi adlewyrchu hyn, gyda chefnogaeth i Undeb Myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth a'u gwaith yn cefnogi cyfleoedd i wirfoddoli a hyfforddi, a hefyd drwy ddarparu'r Adroddiad Cyflawniad Addysg Uwch (HEAR), trawsgrifiad manylach sy'n cydnabod gwirfoddoli a chyflawniadau mewn gweithgareddau allgyrsiol ac yn eu dilysu i gyflogwyr y dyfodol.

Rydym ni'n cydnabod y rhwystrau i wirfoddoli a nodwyd yn adroddiad yr UUK '*Breaking Down the Barriers to Student Opportunities and Youth Social Action*', ac rydym ni'n gweithio drwy Undeb y Myfyrwyr a'n Gwasanaeth Cynghori Gyrfaoedd i ddarparu amrywiaeth o gyngor a chymorth i fyfyrwyr sydd â diddordeb mewn gwirfoddoli ac annog rhagor o fyfyrwyr i weld gwerth ymgymryd â rolau gwirfoddol. Y nod yw chwalu rhwystrau fel canfyddiad gwael, diffyg cymorth arbenigol a biwrocratiaeth drwy ddarparu cyngor hygyrch a'i gwneud mor rhwydd â phosibl i'n myfyrwyr gofrestru am swyddi gwirfoddol.

Mae Undeb Myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth wedi ymuno â chynllun Gwirfoddolwyr y Mileniwm, mewn partneriaeth â Chymdeithas Cyrff Gwirfoddol Ceredigion (CAVO). Drwy hyn, gall myfyrwyr gofnodi eu gwaith gwirfoddol a gweithio at ddyfarniadau ardystiedig. Mae myfyrwyr Aberystwyth yn cyfrannu eu hamser mewn amrywiaeth o ffyrdd, o weithio ar ran eu cymheiriaid fel cynrychiolwyr academaidd, i helpu i redeg timau a chymdeithasau chwaraeon, i wirfoddoli gyda chyrff lleol fel y cadetiaid môr a'r sgowtiaid neu bleidiau gwleidyddol. Mae Cynllun Ffioedd a Mynediad y Brifysgol yn cynnig cymorth i Undeb y Myfyrwyr ac i'r Gwasanaeth Cynghori Gyrfaoedd, sydd

ill dau'n ffynonellau allweddol o wybodaeth ariannol a chefnogaeth i'n gwirfoddolwyr ymhlith y myfyrwyr. Drwy ymwneud â gwirfoddoli mae ein myfyrwyr yn sicrhau sgiliau gwerthfawr y gellir eu mynegi drwy'r HEAR (sydd hefyd yn cael ei gefnogi drwy'r cynllun).

Mae'r Cynllun Ffioedd a Mynediad yn cynnwys cymorth ar gyfer cyrchu a chefnogi profiad gwaith ystyrlon mewn partneriaeth â chyflogwyr lleol, cenedlaethol a rhyngwladol – mewn rhaglenni 4 blynedd integredig, neu am gyfnodau byrrach.

## Y SAIL RESYMEGOL (GAN GYNNWYS AGWEDD STRATEGOL)

Ein nod trosfwaol yng Nghynllun Ffioedd a Mynediad 2017/18 yw buddsoddi incwm ffioedd yn strategol mewn gweithgareddau fydd yn cynorthwyo myfyrwyr o'r cam ymgeisio hyd at raddio a thu hwnt, a chynyddu llwyddiant myfyrwyr.

Mae Prifysgol Aberystwyth yn falch o'r gwaith rydym ni wedi'i gyflawni drwy gynlluniau ffioedd blaenorol – mae hyn wedi arwain at welliant cyson mewn nifer o'n Dangosyddion Perfformiad Allweddol dros y tair blynedd diwethaf: gwelliant yng nghyfartaledd sgoriau'r NSS (yn enwedig adborth), cyflogadwyedd graddedigion a chanlyniadau gradd. Mae cyfraddau cwblhau a chadw ymhlith y gorau yn y sector, ac mae Prifysgol Aberystwyth yn parhau i berfformio at y meincnod ar ddau o'i dangosyddion ehangu cyfranogiad.

Mae'r buddsoddiadau wedi'n helpu ni i ddarparu cymorth parhaus i'n gweithgareddau ehangu mynediad (gan gynnwys ein Prifysgol Haf) ac wedi hwyluso gwelliannau i ansawdd yr amgylchedd dysgu ac addysgu. Mae uwchraddiad i'n hystafelloedd dysgu ac addysgu, gan gynnwys cyflwyno offer cipio darlithoedd a chyfleusterau dysgu wedi'i gyfoethogi gan dechnoleg, yn cael ei gyflawni drwy fuddsoddiad strategol yn y meysydd hyn mewn cynlluniau ffioedd olynol.

Er mwyn adeiladu ar y gwelliannau rydym ni wedi'u gwneud i'n seilwaith a'n gweithgareddau, rydym ni'n dymuno adeiladu Cynllun Ffioedd a Mynediad a fydd, drwy'r gwaith mae'n ei neilltuo ar gyfer buddsoddi, yn galluogi gwelliant parhaus mewn gweithgareddau sy'n cefnogi myfyrwyr ar bob cam o'u bywyd Prifysgol:

Cyn mynediad

- Sicrhau cyfle cyfartal a chwalu rhwystrau at astudio, boed y rheini'n gymdeithasol, ariannol, ieithyddol neu ffisegol, drwy ddarparu bwrsariaethau ac ysgoloriaethau sy'n ymateb i anghenion myfyrwyr, drwy weithgareddau ehangu mynediad helaeth â'r nod o godi dyheadau a chwalu rhwystrau cysyniadol i'r Brifysgol, a thrwy weithgareddau ysgol dychmygus dan arweiniad ysgolheigion i ennyn brwdfrydedd y myfyrwyr am fywyd y Brifysgol a'u helpu i wneud y dewisiadau cywir ar gyfer eu dyfodol.

Yn ystod y cyfnod astudio

- Gwella ansawdd yr amgylchedd dysgu ac addysgu i sicrhau bod ein mannau dysgu'n hygyrch, yn hwyluso technegau dysgu modern ac yn cynnwys yr adnoddau electronig diweddaraf.

- Sicrhau ansawdd y cymorth i bob myfyriwr, er mwyn gwella cyfraddau cadw a sicrhau bod myfyrwyr yn gallu gwneud y gorau o'u cyfnod yn y Brifysgol a chwalu rhwystrau at lwyddiant. Cefnogi gwaith ein Cyfarwyddwr Cydraddoldeb i sicrhau bod myfyrwyr sydd â nodweddion gwarchodedig yn cael gwybodaeth a chymorth priodol.

- Cefnogi gwaith ein Hundeb Myfyrwyr a gweithio mewn partneriaeth â nhw i ymateb i anghenion newidiol a phryderon myfyrwyr.

- Gwella dysgu ar-lein, gan gynnwys cipio darlithoedd a darparu'r adnoddau TG diweddaraf.

- Buddsoddi yn ein darpariaeth llyfrgell a TG i sicrhau bod myfyrwyr yn gallu manteisio ar adnoddau o'r ansawdd gorau.

Ar ôl graddio

- Buddsoddi mewn cynlluniau i wella cyflogadwyedd graddedigion, gan gynnwys lleoliadau a phrofiad gwaith, ac yng ngwaith ein Gwasanaeth Cynghori Gyrfaoedd.

Mae'r llinell amser ar gyfer y cymorth hwn, sy'n cael ei lywio drwy ymgynghori â'n myfyrwyr drwy Rho Wybod Nawr ac adeiladu ar waith Cynllun Llwyddiant Myfyrwyr 2015 - 2017, yn darparu sail resymegol glir ar gyfer y buddsoddiadau rydym ni wedi'u neilltuo ar gyfer y cynllun. Drwy gydol y cynllun, bydd y gweithgareddau a gefnogir yn nodi pa ran o daith y myfyriwr y byddant canolbwyntio arnyn nhw gyda'r allwedd syml isod




I grynhoi, sail resymegol y Cynllun Ffioedd a Mynediad yw gwella llwyddiant myfyrwyr, o ddyheadau hyd at gyflogaeth neu astudiaethau pellach.

## Amcanion:

Mae amcanion y Cynllun Ffioedd a Mynediad fel a ganlyn:

*Cydraddoldeb cyfle*

- Chwalu rhwystrau ariannol at fynediad drwy raglen bwrsariaethau sydd wedi'i chynllunio i dargedu'r angen mwyaf a chynorthwyo myfyrwyr o deuluoedd incwm isel.
- Ehangu Mynediad at addysg uwch a gwella llwybrau cynnydd ar gyfer myfyrwyr o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol mewn Addysg Uwch.
- Cefnogaeth i fyfyrwyr o gefndir gofal o'r cyfnod cyn mynediad hyd at raddio.
- Codi cyflawniad drwy waith allgymorth mewn ysgolion, gweithio mewn partneriaeth gydag ysgolion a cholegau, yn enwedig mewn ardaloedd isel eu cyfranogiad, i helpu myfyrwyr i gyflawni eu potensial yn llawn.
- Sicrhau bod myfyrwyr (yn enwedig y rheini o gefndir ehangu mynediad) yn gallu manteisio ar gymorth ar gyfer y sgiliau fydd eu hangen arnyn nhw i gyflawni eu potensial yn llawn.
- Darparu cronfa cymorth myfyrwyr i gynorthwyo myfyrwyr mewn angen a lleihau cyfraddau tynnu'n ôl oherwydd pwysau ariannol.
- Gwella cyfraddau cadw drwy drefn well o ddynodi myfyrwyr sy'n debygol o fod mewn perygl o dynnu'n ôl
- Datblygu amgylchedd dysgu o ansawdd byd-eang i sicrhau'r profiad dysgu gorau bosibl i fyfyrwyr mewn modd cynhwysol sy'n diwallu anghenion yr holl ddysgwyr
- Cyflawni cynnydd o ran niferoedd sy'n dewis blwyddyn allan, gan gynnwys y Flwyddyn Dramor a'r Flwyddyn mewn Diwydiant, yn enwedig ymhlith y myfyrwyr hynny sydd â chyfalaf cymdeithasol isel
- Sicrhau bod myfyrwyr yn ymwybodol o ffioedd eu cyrsiau a'u bod yn gallu gwneud dewisiadau gwybodus am Brifysgol.
- Gwella cyfraddau cadw drwy gynlluniau i ddarparu cymorth dwys wedi'i dargedu i fyfyrwyr yn ystod wythnosau cyntaf eu bywyd Prifysgol a chymorth parhaus wedi hynny, yn enwedig i'r rheini y dynodwyd eu bod yn grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol neu grwpiau yr ystyrir eu bod mewn perygl o dynnu'n ôl.
- Gweithio mewn partneriaeth gydag Undeb y Myfyrwyr i ddarparu gwasanaethau cwnsela a chymorth a sicrhau bod llais y myfyriwr yn cael ei gynnwys yn gryf ac yn gallu cyflwyno adborth ar y profiad.
- Cyflawni cynnydd yng nghyflogadwyedd a sgiliau ein graddedigion yn enwedig y rheini y dynodir eu bod heb gynrychiolaeth ddigonol mewn Addysg Uwch.
- Ehangu darpariaeth cyfrwng Cymraeg a chynyddu niferoedd ar gyrsiau.
- Gwelliannau i'r ystad i wella hygyrchedd.

*Hyrwyddo Addysg Uwch*

- Datblygu cysylltiadau agosach gyda grwpiau cymunedol a diwydiant, yn lleol a chenedlaethol, er budd ein myfyrwyr
- Gweithio'n agos gydag ysgolion ar raglenni i gyfoethogi a gwella'r cwricwlwm ysgol a chyflwyno canlyniadau i'r cyswllt rhwng y cwricwlwm ac Addysg Uwch
- Datblygu dangosfwrdd myfyrwyr diwygiedig sy'n hyrwyddo llwyddiant myfyrwyr, gyda chymorth system tiwtora personol ddiwygiedig

- Ymgynghori parhaus gyda'r corff myfyrwyr am ffyrdd i gyfoethogi dysgu ac addysgu drwy ddatblygu arolygon ystyrlon a chyswllt ar-lein.
- Darparu'r technolegau dysgu diweddaraf i gynorthwyo llwyddiant myfyrwyr a gwella cyfraddau cadw
- Datblygu amgylchedd dysgu o safon fyd-eang i sicrhau'r profiad dysgu gorau bosibl i fyfyrwyr
- Datblygu profiad mwy rhyngwladol i'n myfyrwyr
- Datblygu amgylchedd dysgu a byw o safon fyd-eang i sicrhau'r profiad dysgu gorau bosibl mewn ystâd sy'n gynaliadwy at y dyfodol
- Darparu portffolio o ysgoloriaethau sy'n annog ac yn gwobrwyo rhagoriaeth ac a dyheadau academaidd
- Darparu cymorth gyrfa o ansawdd uchel i annog yr holl fyfyrwyr i gyflawni eu potensial a chael y sgiliau i'w harfogi ar gyfer eu gyrfaoedd yn y dyfodol

## *Lefelau Buddsoddi*

Mae'r lefelau buddsoddi arfaethedig yn y categorïau darpariaeth yn seiliedig ar yr egwyddorion canlynol:

*a)* Bwriadwn wario rhwng 15% a 17% o incwm y Cynllun Ffioedd a Mynediad ar weithgareddau'r Cynllun Ffioedd a Mynediad.

*b)* Mae cyfran helaeth o fyfyrwyr Aberystwyth yn dod o fewn un neu ragor o gategorïau y grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol mewn Addysg Uwch. Hefyd mae gennym gyfran uchel o fyfyrwyr o ysgolion y wladwriaeth. Er nad yw disgyblion o ysgolion y wladwriaeth wedi'u tangynrychioli mewn AU yng Nghymru, fe'u cydnabyddir gan HESA fel marciwr cenedlaethol o ehangu mynediad a byddwn yn parhau i dracio ein perfformiad yn erbyn y meincnod a osodwyd i ni gan HESA i sicrhau bod y Cynllun Ffioedd a Mynediad yn cefnogi cyfle cyfartal i fyfyrwyr o bob rhanbarth o'r DU. Bydd c. 50% o wariant incwm gofynnol y Cynllun Ffioedd a Mynediad yn mynd ar Gydraddoldeb Cyfle.

*c)* Gwaith y Cynllun Llwyddiant Myfyrwyr, sydd wedi amlygu meysydd a fyddai'n elwa o fuddsoddiad ychwanegol er mwyn cyflawni cynnydd mewn recriwtio, cyfraddau cadw, cyflawniad a chyflogadwyedd myfyrwyr. Bydd c. 50% o wariant incwm gofynnol y Cynllun Ffioedd a Mynediad yn mynd ar Hyrwyddo Addysg Uwch.

## *Gwreiddio a Chydweddu'r Cynllun Ffioedd a Mynediad yn strategol*

Gan fod y Cynllun Llwyddiant Myfyrwyr yn un o sbardunau'r Cynllun Ffioedd a Mynediad, mae'r gweithgareddau a amlinellir yn y cynllun eisoes wedi'u gwreiddio mewn agwedd strategol at wella prosesau a gweithgareddau ar draws y Brifysgol. Mae'r cynllun hefyd yn cysylltu â'n Cynllun Recriwtio sy'n datblygu, a'n Cynllun Cydraddoldeb Strategol sydd wedi'i gyhoeddi.

Mae Cynllun Strategol y Brifysgol yn rhedeg hyd at 2017. Ei nod cyntaf yw '*Creu Cyfleoedd',* a fynegir fel *'chwalu'r rhwystrau sy'n atal pobl rhag manteisio ar addysg uwch, helpu myfyrwyr a staff i lwyddo a datblygu, ymgorffori cyflogadwyedd ar draws ein cwricwlwm, a hybu profiadau sy'n golygu bod myfyrwyr yn gallu profi a datblygu eu sgiliau, gwerthfawrogi pobl a gwireddu eu potensial llawn.*' Mae blaenoriaethau'r Cynllun Ffioedd a Mynediad yn adlewyrchu hyn, gyda'r pwyslais ar ehangu mynediad, cyfoethogi llwyddiant a datblygu sgiliau ar gyfer cyflogaeth ac astudiaethau pellach.

Mae Cynllun Cydraddoldeb Strategol Prifysgol Aberystwyth yn rhedeg hyd at 2020 ac yn ein hymrwymo i ddarparu amgylchedd dysgu ac addysgu cynhwysol, a hyrwyddir drwy ein prosesau recriwtio, rheoli ystadau, cymorth myfyrwyr a chyfathrebu. Adlewyrchir y blaenoriaethau hyn yng ngwaith ein Cynllun Ffioedd a Mynediad a bydd y gweithgareddau a amlinellir gennym yn ein Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Strategol yn cefnogi llwyddiant y Cynllun Ffioedd a Mynediad.

## Grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol mewn Addysg Uwch

Credwn y dylai pob myfyriwr gael cyfle cyfartal i fanteisio ar addysg uwch, elwa o'r ddarpariaeth sydd ar gael a chyflawni eu potensial i lwyddo. Rydym yn cydnabod, fodd bynnag, er mwyn sicrhau cyfle cyfartal, bod angen dynodi'r grwpiau hynny sydd angen cymorth ychwanegol i sicrhau eu bod yn cael yr un cyfleoedd â'u cymheiriaid.

Rydym ni'n cydnabod nad oes gan y grwpiau canlynol gynrychiolaeth ddigonol mewn addysg uwch a/neu fod angen cymorth ychwanegol arnynt:


- Myfyrwyr o ardaloedd lle mae'n debygol nad oes gan deuluoedd unrhyw gefndir blaenorol mewn AU, fel y mesurir gan ddangosydd perfformiad cyfranogiad isel HESA. Mae data diweddaraf HESA (blwyddyn academaidd 2014/15) yn dangos bod 12.9% o'n myfyrwyr newydd o gymdogaethau cyfranogiad isel.
- Myfyrwyr o'r grwpiau economaidd-gymdeithasol isaf (NS-SEC 4,5,6,7) fel y mesurir gan ddangosydd perfformiad cyfranogiad isel HESA - mae data diweddaraf HESA (blwyddyn academaidd 2014/15) yn dangos bod 33.8% o'n myfyrwyr newydd o ddosbarthiadau NS-SEC 4,5,6 neu 7.
- Myfyrwyr ag anableddau (mae tua 15% o'n myfyrwyr yn datgan anabledd)
- Myfyrwyr Aeddfed (mae tua 14% o'n myfyrwyr wedi'u cofrestru fel rhai aeddfed – sef eu bod yn 21 wrth gofrestru. Gall y myfyrwyr hyn fod ag anghenion cymorth penodol gan eu bod wedi bod allan o addysg, wedi dod i'r brifysgol drwy lwybrau anhraddodiadol neu fod ganddynt gyfrifoldebau gofal ychwanegol).
- Myfyrwyr o deuluoedd incwm isel sy'n gymwys ar gyfer ein bwrsariaethau prawf modd (Yn 2014/15 roedd hyn yn cynorthwyo c.41% o'n myfyrwyr newydd).
- Myfyrwyr o gefndir gofal (nifer fach o'n carfan o fyfyrwyr yw'r rhain, ond mae iddynt anghenion penodol gan nad oes ganddynt y gefnogaeth y mae'r mwyafrif o'n myfyrwyr yn ei dderbyn gan eu teuluoedd. Rydym ni'n gweithio'n

galed yn ein Canolfan Ehangu Cyfranogiad a Chynhwysiad Cymdeithasol i sicrhau eu bod yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt i gyflawni eu potensial)



- Oedolion Ifanc sy'n Ofalwyr
- Myfyrwyr o gefndiroedd lleiafrifol ethnig (tua 7.3% o'n myfyrwyr)
- Myfyrwyr cyfrwng Cymraeg. (Mae tua 9.3% o'n myfyrwyr yn datgan eu bod yn 'rhugl'. Rhan o'n gwaith drwy'r Cynllun Ffioedd a Mynediad yw cynyddu'r nifer o fyfyrwyr rhugl sy'n astudio rhywfaint drwy gyfrwng y Gymraeg)
- Rydym ni hefyd yn cydnabod y cymorth ychwanegol sydd ei angen ar fyfyrwyr tariff isel a myfyrwyr sy'n dod ar raglenni Blwyddyn 0 (gyda'r cymorth priodol gall y myfyrwyr hyn fynd ymlaen i wneud yn dda ac mae llawer o'n Cynllun Ffioedd a Mynediad yn gweithio i gynnig cyfleoedd i fyfyrwyr gyflawni eu potensial llawn)
- Ar lefel pwnc rydym ni'n ceisio gwneud mwy dros ddynion ifanc, sydd yn draddodiadol yn tanberfformio ar Safon Uwch a lefel Prifysgol, ac sydd hefyd yn fwy tebygol o beidio â gorffen eu hastudiaethau na'u cymheiriaid benywaidd (mae cyfradd peidio â pharhau ym mhob blwyddyn astudio yn 2-3 pwynt canran yn uwch i fyfyrwyr gwrywaidd na rhai benywaidd). Mae'r rhain yn faterion y mae llywodraethau'r DU a Chymru wedi dechrau dangos diddordeb ynddynt. Mae anghenion y myfyrwyr hyn yn amrywio ac yn aml ceir gorgyffwrdd rhwng y categorïau.

## Amcanion a Darpariaeth


### Mesurau i gynorthwyo unigolion heb gynrychiolaeth ddigonol mewn Addysg Uwch a sicrhau Cyfle Cyfartal



| *Hyrwyddo a diogelu mynediad teg i Addysg Uwch, gan gynnwys dynodi unigolion sydd â'r potensial mwyaf o gefndiroedd difreintiedig.* | |
|---|---|
| **Amcan** | **Darpariaeth** |
| Ehangu Mynediad i Addysg Uwch a gwella llwybrau cynnydd i fyfyrwyr o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol mewn Addysg Uwch.<br><br> | **Y Brifysgol Haf**<br>Caiff incwm ffioedd ei ddefnyddio i ddarparu cymorth i'n Prifysgol Haf, rhaglen sydd â hanes llwyddiannus o godi dyheadau a hyder ymhlith myfyrwyr nad oes ganddynt hanes teuluol o fynychu AU ac annog y myfyrwyr hynny i ymgeisio i fynd i Addysg Uwch. Darperir y Brifysgol Haf i hyd at 80 o fyfyrwyr o grwpiau neu gymunedau heb gynrychiolaeth ddigonol mewn AU ac mae'n cynnig gwarant o lwybr at AU i'r rhai sy'n llwyddo yn y cwrs, yn amodol ar fodloni'r gofynion mynediad cyffredinol.<br><br>Mae'r Brifysgol Haf hefyd yn cyfrannu at gyflogadwyedd y mentoriaid myfyrwyr ar y rhaglen.<br><br>**Gweithgareddau i godi dyheadau**<br>Bydd incwm ffioedd yn cefnogi ein Canolfan Ehangu Cyfranogiad a Chynhwysiad Cymdeithasol yn ei gwaith mewn ysgolion a'r gymuned ehangach, gan weithio mewn partneriaeth gydag ysgolion a cholegau i ddatblygu'r dyheadau academaidd a chyflawniad plant a phobl ifanc. Mae'r gweithgareddau hyn yn cyfrannu at godi dyheadau myfyrwyr o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol mewn Addysg Uwch, gan annog plant i weld Addysg |

| | |
|---|---|
| | Uwch fel dewis hyfyw.<br><br>Mae'r gweithgareddau'n cynnwys:<br>• Digwyddiadau i ennyn diddordeb mwy o bobl ifanc mewn pynciau STEM gydag arddangosfeydd Wythnos Wyddoniaeth, sioeau teithio Mathemateg, diwrnodau Darganfod STEM;<br>• Rhaglen Blas ar Fywyd Prifysgol sy'n gyfle i ddisgyblion ymweld â'r campws i ddysgu am fywyd prifysgol ac chodi dyhead i ymgeisio i AU<br>• Gwaith Bagloriaeth Cymru gydag ysgolion Ehangu Mynediad<br>• Sesiynau adolygu wythnosol mewn Mathemateg a Saesneg i godi cyflawniad mewn plant y pennir eu bod mewn perygl o gyflawniad isel<br>• Gweithgareddau mentora mewn pynciau STEM gan gynnwys e-fentora a sesiynau cyngor galw heibio mewn digwyddiadau Prifysgol yn arbennig ar gyfer grwpiau Ehangu Mynediad, adolygu ar ôl ysgol i ysgolion lleol (TGAU Mathemateg a Saesneg blwyddyn 11), sesiynau cyngor ac arweiniad i flwyddyn 9, sesiynau cyngor ac arweiniad i flwyddyn 12 a 13<br>• 'Prosiect Darganfod y Brifysgol' wedi'i dargedu at Garfannau Ehangu Mynediad i'w beilota yn 2016/17 a'i gyflwyno yn 2017/18.<br>• Datblygu strategaeth Grwpiau Du a Lleiafrifoedd Ethnig, sicrhau bod grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol yn Aberystwyth yn cael eu cyrraedd yn llawn. |


| *Denu a chadw myfyrwyr a darpar fyfyrwyr o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol, a allai gynnwys myfyrwyr o gefndiroedd llai breintieidg a myfyrwyr sydd â nodweddion gwarchodedig.* | |
|---|---|
| **Amcan** | **Darpariaeth** |
| Chwalu rhwystrau ariannol at fynediad drwy raglen o fwrsariaethau i dargedu'r angen mwyaf a chefnogi myfyrwyr o deuluoedd incwm is.<br><br> | **Darpariaeth Bwrsariaethau**<br>Mae ein rhaglen bwrsariaethau a dyfarniadau wedi'i thargedu i gefnogi ehangu mynediad a llwyddiant myfyrwyr i sicrhau, cyn belled ag y bo'n bosibl, cyfle cyfartal i bob darpar fyfyriwr. Byddwn yn parhau i gynnig pecyn eang o gymorth, gan adolygu'r nifer sy'n derbyn bwrsariaethau i sicrhau bod hyn yn ymateb i anghenion myfyrwyr. Gan ddibynnu ar broffil ein corff myfyrwyr, rydym yn rhagweld y bydd rhwng 35% a 50% o'n myfyrwyr llawn amser israddedig Cartref/UE yn derbyn cymorth bwrsariaeth gyda phrawf modd fel rhan o becyn cyfan a dargedir i ddelio â'r risg o fyfyrwyr o ardaloedd incwm isel neu LPN yn peidio â pharhau. |
| Cymorth i fyfyrwyr o gefndir gofal o'r cyfnod cyn dechrau hyd at raddio.<br><br> | **Cymorth i'r rhai sy'n gadael gofal**<br>Drwy'r Ganolfan Ehangu Cyfranogiad a Chynhwysiad Cymdeithasol, a gyllidir drwy'r Cynllun Ffioedd a Mynediad, byddwn yn sicrhau bod myfyrwyr o gefndir gofal yn cael manteisio ar gymorth cyn ymgeisio (gyda chymorth mewn Diwrnodau Agored a Diwrnodau Ymweld yn ogystal â chymorth teithio a llety, a chymorth drwy'r broses ymgeisio), a phan fyddan nhw'n cyrraedd, gyda chysylltiadau a enwir i helpu myfyrwyr i ymgartrefu a chymorth parhaus drwy eu gyrfa prifysgol. Mae ein bwrsariaethau gadael gofal yn cynnig cymorth ariannol i leddfu'r pwysau ar fyfyrwyr nad oes ganddynt ffynonellau cymorth eraill yn aml. |


| *Codi dyheadau addysgol a datblygu sgiliau sy'n paratoi myfyrwyr o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol at Addysg Uwch.* | |
|---|---|
| **Amcan** | **Darpariaeth** |
| Codi dyheadau drwy waith allgymorth ysgolion, gan weithio mewn partneriaeth gydag ysgolion a cholegau, yn enwedig y rheini mewn ardaloedd o gyfranogiad isel, i helpu myfyrwyr i gyflawni eu potensial llawn.<br> | **Gwaith Cyswllt Ysgolion**<br>**Sgyrsiau Ysgol**<br>Mae ein Tîm Cyswllt Ysgolion yn gweithio mewn partneriaeth gydag ysgolion i ddarparu sgyrsiau a gweithdai i fyfyrwyr, athrawon ac ymgynghorwyr ar amrywiaeth o bynciau'n gysylltiedig â'r brifysgol, i sicrhau bod myfyrwyr o bob cefndir yn gallu manteisio ar yr wybodaeth a'r offerynnau sydd eu hangen arnynt i wneud y dewisiadau cywir am Addysg Uwch, gan geisio yn benodol ymgysylltu â myfyrwyr sydd y cyntaf yn eu teulu i fynd i'r Brifysgol neu, am ryw reswm arall, nad oes ganddynt yr un cyfalaf cymdeithasol â'u cymheiriaid. Mae'r tîm yn gweithio i helpu myfyrwyr i wneud synnwyr o'r broses UCAS a llywio drwy'r daith gymhleth o ddewis ac ymgeisio i brifysgolion, gan gynnig cyngor ar ffynonellau cyllid a helpu i ddrafftio datganiadau personol. Mae sesiynau Ffug Gyfweliadau'n helpu myfyrwyr i adeiladu eu hyder ac mae sgyrsiau ar reoli arian yn helpu i chwalu rhwystrau ariannol. Y nod yw sicrhau nad oes unrhyw fyfyriwr dan anfantais ar y cam ymgeisio oherwydd ddiffyg mynediad at wybodaeth neu gymorth.<br>**Diwrnodau Cyfoethogi Safon Uwch**<br>Mae ein Tîm Cyswllt Ysgolion hefyd yn datblygu cymorth ar sail pwnc, gyda'n Diwrnodau Cyfoethogi Safon Uwch dan arweiniad ysgolheigion. Cyflwynwyd y diwrnodau thematig hyn yn 2015/16 fel menter newydd ac maen nhw wedi profi'n boblogaidd gydag ysgolion gan eu bod yn galluogi myfyrwyr i fanteisio ar sgyrsiau sy'n cyfoethogi'r cwricwlwm gan athrawon y Brifysgol. Mae'r diwrnodau sydd wedi'u cynnal hyd yma yn bennaf wedi bod mewn canolfannau trefol ac yn tynnu ar groestoriad o ysgolion gan gynnwys disgyblion o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol. Caiff y fenter hon ei datblygu ymhellach, gan weithio mewn partneriaeth gydag ysgolion i sicrhau |

| | |
|---|---|
| | bod y cyflwyno'n cyfoethogi'r cwricwlwm Safon Uwch. |
| Sicrhau bod myfyrwyr yn gallu manteisio ar gymorth ar gyfer y sgiliau sydd eu hangen i gyflawni eu potensial llawn.<br><br> | **Canolbwynt Sgiliau Astudio**<br>Byddwn yn parhau i ddatblygu a chynnal Canolbwynt Sgiliau Astudio ar-lein fydd yn darparu mynediad at amrywiaeth o fodiwlau sgiliau cyn cyrraedd a thrwy gydol eu blwyddyn gyntaf (ysgrifennu traethawd, sgiliau cyflwyno, cyfeirnodi ac ati). Y nod yw helpu myfyrwyr i baratoi ar gyfer llwyddo. Caiff cyswllt â'r canolbwynt ei annog drwy amrywiaeth o gyfathrebiadau â myfyrwyr, gan gynnwys Gwybodaeth Wythnos Groeso, cyngor y Gwasanaethau Gwybodaeth, llawlyfrau a cyngor Adrannol a system tiwtor personol rydym ni hefyd yn ei diwygio.<br>Yn benodol, bydd yn helpu i ymdrin â phroblem myfyrwyr nad ydynt yn dymuno gofyn am help gyda sgiliau oherwydd y canfyddiad o stigma ac embaras. Caiff defnydd o'r Canolbwynt Sgiliau ei fonitro drwy ystadegau a ddarperir gan y timau Blackboard a Rheoli Cynnwys, cynhelir arolygon drwy'r Gwasanaethau Gwybodaeth ac Undeb y Myfyrwyr. Bydd defnydd o'r Canolbwynt Sgiliau Astudio yn bwydo i'r Dangosfwrdd Myfyrwyr. Mae'r Canolbwynt Sgiliau yn benodol yn mynd i'r afael ag anghenion y myfyrwyr hynny o gymdogaethau cyfranogiad isel neu sydd y cyntaf o'u teulu i fynd i'r Brifysgol, yn ogystal â darparu cymorth ychwanegol i'r myfyrwyr hynny a aeth i'r Brifysgol ar dariff isel ac a allai fod angen help i wella eu perfformiad |

| *Cynorthwyo a chynyddu cyfraddau cadw a chwblhau myfyrwyr, yn enwedig y rheini o gymdogaethau cyfranogiad isel, plant sy’n derbyn gofal, y rheini sy’n gadael gofal a gofalwyr* | |
|---|---|
| **Amcan** | **Darpariaeth** |
| Darparu cronfa cymorth myfyrwyr i gefnogi myfyrwyr mewn angen a lleihau cyfraddau tynnu’n ôl oherwydd pwysau ariannol.<br><br> | **Cronfa Caledi Myfyrwyr**<br>I ategu ein gweithgareddau Ehangu Mynediad, gan gynnwys bwrsariaethau prawf modd, sydd â’r nod o sicrhau cyfle cyfartal drwy chwalu’r rhwystrau mynediad sy’n wynebu myfyrwyr o gefndiroedd incwm is, rydym ni’n ymrwymo i ddarparu cymorth i’r rheini sy’n profi anawsterau ariannol yn ystod eu cyfnod yn y Brifysgol. I’r perwyl hwn, byddwn yn darparu cronfa caledi â’r nod o gynnig cymorth i fyfyrwyr sydd angen grantiau cynnal a chadw bach. |
| Gwella cyfraddau cadw drwy ddynodi myfyrwyr sy’n debygol o fod mewn perygl o dynnu’n ôl yn well.<br><br> | **Monitro Cyfraddau Cadw**<br>Byddwn yn buddsoddi mewn gwaith i wella cyfraddau cadw drwy fonitro presenoldeb a defnyddio mesurau eraill i ymgysylltu myfyrwyr i ddynodi ymhle mae myfyrwyr yn debygol o fod mewn perygl o dynnu’n ôl a galluogi adrannau i gynnig cymorth ategol drwy’r system tiwtor personol. Ymhlith myfyrwyr a ddynodir ymhlith y rhai sydd yn y perygl mwyaf o dynnu’n ôl mae’r rhan fwyaf o’r rheini y dynodir eu bod heb gynrychiolaeth ddigonol mewn Addysg Uwch (myfyrwyr o deuluoedd incwm isel, myfyrwyr â phwyntiau tariff isel, myfyrwyr o gymdogaethau cyfranogiad isel ac ati).<br>Gall mesurau ymgysylltu, a fynegir mewn dangosfwrdd myfyrwyr a gaiff ei beilota yn 2016/17 a’i gyflwyno’n llawn yn 2017/18, hefyd helpu i ddynodi’r amseroedd yn y flwyddyn pan fydd myfyrwyr dan bwysau uchel a’n cynorthwyo ni i ymateb drwy newidiadau yn ein prosesau neu ein hamserlennu. Ceir tri phrosiect Cyfraddau Cadw a dargedir sy’n rhan o’r |

| | |
|---|---|
| | Cynllun Llwyddiant Myfyrwyr, a fydd yn parhau yn 2017/18. |


| *Gwella profiad Addysg Uwch myfyrwyr o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol, gan gynnwys gweithgareddau i hyrwyddo profiad rhyngwladol* | |
|---|---|
| **Amcan** | **Darpariaeth** |
| Datblygu amgylchedd dysgu o safon fyd-eang i sicrhau'r profiad dysgu gorau bosibl i fyfyrwyr, yn enwedig myfyrwyr sydd â chyfalaf cymdeithasol isel.   | **Gwelliannau i'r ystadau**<br>Dros gynlluniau dilynol mae Prifysgol Aberystwyth wedi buddsoddi mewn rhaglen helaeth o ddiweddariadau i'n hystâd i sicrhau bod cyflwr y mannau dysgu ac addysgu lle mae ein myfyrwyr yn gweithio mor uchel â phosibl. Byddwn yn parhau i wneud gwelliannau lle bo angen, gan gynnwys darparu mannau astudio anffurfiol (gan adeiladu ar y Tanc Meddwl hynod lwyddiannus yn Nhŵr Llandinam) i annog gwaith grŵp a dysgu cydweithredol, yn ogystal â gwelliannau i'r mannau dysgu a'r mannau llyfrgell, gan sicrhau bod y mannau hyn yn groesawgar ac yn gyfforddus i astudio. Mae'r cysyniad o 'Schwellenangst' (ofn trothwy) yn disgrifio'r ofn mae llawer o fyfyrwyr sydd â phrofiad cyfalaf cymdeithasol isel yn ei brofi pan fyddan nhw'n dod ar draws mannau dysgu traddodiadol lle nad ydynt yn teimlo eu bod yn 'perthyn' oherwydd eu cefndir a'r 'syndrom ffugiwr' cyffredin. Byddwn yn parhau yn ystod 17/18 i ddatblygu mannau dysgu lle caiff y ffiniau eu cymylu er mwyn sicrhau nad yw myfyrwyr yn cael eu brawychu. Mae'r Tanciau Meddwl yn enghraifft dda o hyn - mannau sydd â chyfarpar dysgu lle mae'r ffin rhwng man cymdeithasol a man astudio'n aneglur ac felly mae'r man dysgu'n groesawgar ac yn ddeniadol.<br>Rydym ni hefyd yn ymrwymo'n llawn i barhau i wella mynediad i'n Hystâd i'n myfyrwyr, staff ac ymwelwyr a sicrhau nad yw ein myfyrwyr yn wynebu unrhyw rwystrau corfforol i allu manteisio ar addysg. Bydd ein gwaith ar yr ystâd yn cynnwys cwricwlwm cynhwysol, gan gynnwys defnydd rheolaidd o recordio |


| | |
|---|---|
| | darlithoedd a chylchoedd clyw, gan alluogi myfyrwyr sydd ag amrywiaeth eang o anghenion ffisegol a dysgu i gael eu deunyddiau astudio yn y modd sy'n gweddu eu hanghenion penodol nhw orau. Byddwn yn parhau i fuddsoddi mewn seilwaith hygyrchedd i helpu gyda hyn. |
| Cynyddu'r niferoedd sy'n manteisio ar gyfleoedd blwyddyn allan, gan gynnwys Blwyddyn Dramor a Blwyddyn mewn Diwydiant.<br><br> | **Cymorth ar gyfer Lleoliadau Blwyddyn Allan**<br>Mae myfyrwyr yn elwa'n fawr o'r flwyddyn integredig dramor neu mewn diwydiant. Mae myfyrwyr a chyflogwyr yn gwerthfawrogi'r sgiliau a'r hyder mae myfyrwyr yn eu hennill o'r profiadau hyn sy'n bwydo'n ôl i'w perfformiad dros weddill eu blynyddoedd o astudio. Fel rhan o ffrwd cyflogadwyedd y Cynllun Llwyddiant Myfyrwyr fe fyddwn ni, yn ystod 2016/17, yn datblygu ffyrdd newydd i gefnogi Blwyddyn Allan, gan gynnwys ystyried cymorth mwy canolog a ffyrdd gwell i gefnogi gwaith mewn adrannau. Drwy gydol 2017/18 byddwn yn gweithredu canlyniadau'r gwaith hwn, â'r nod o gyflawni cynnydd yn y nifer o fyfyrwyr sy'n elwa o'r flwyddyn allan integredig. Mae'r gwaith hwn yn benodol o ddefnydd i fyfyrwyr o gefndiroedd incwm isel neu o gefndiroedd yn y grwpiau NS-SEC is, oherwydd mae'n bosibl nad ydyn nhw erioed wedi cael eu hannog i ystyried teithio'r byd fel cyfle; neu yn methu ag elwa ar gysylltiadau, neu hyder i gyrchu lleoliadau gwaith yn anffurfiol. Unwaith eto, ceir trothwyon cyfyngol yr rydym ni, fel prifysgol yn dymuno i'n myfyrwyr eu croesi, ac rydym ni'n ymrwymo i'w helpu er mwyn iddyn nhw allu cyflawni eu potensial. Nid yw pob un o'r trothwyon hyn yn ffisegol. |


| *Darparu gwybodaeth effeithiol i fyfyrwyr o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol cyn ac yn ystod eu cyrsiau.* | |
|---|---|
| **Amcan** | **Darpariaeth** |
| Sicrhau bod myfyrwyr yn ymwybodol o ffioedd eu cyrsiau a'u bod yn gallu gwneud dewis gwybodus | **Cyngor a gwybodaeth gynhwysfawr i fyfyrwyr.** |

<table>
<tr>
<td>am Brifysgol.<br><br><br></td>
<td>Yn ogystal â’r cyngor a’r arweiniad cynhwysfawr cyn dod i’r brifysgol a geir drwy ein Swyddfa Cyswllt Ysgolion a’n Canolfan Ehangu Cyfranogiad a Chynhwysiad Cymdeithasol, byddwn ni’n sicrhau bod gwybodaeth a ddarperir drwy’r cyfryngau canlynol yn glir a hygyrch:<br><br>• Ar ein gwefan (aber.ac.uk) ceir manylion ein holl gyrsiau, gan ddangos cynnwys y rhaglen, y modd cyflwyno a’r sgiliau a ddysgir. Rydym ni’n gwella ein gwefan yn barhaus i sicrhau ei bod mor hawdd ei defnyddio â phosibl a bod yr wybodaeth sydd ar gael yn gyfredol a chlir.<br>• Caiff gwybodaeth am unrhyw gostau ychwanegol (fel cyrsiau maes, ymweliadau â theatrau, orielau ac amgueddfeydd ac ati) nad ydynt wedi’u cynnwys yn y ffi Prifysgol gyffredinol eu datgan ar wefan y Brifysgol https://www.aber.ac.uk/en/student-finance/undergraduate-uk/additional-fees/ a byddwn ni’n parhau â’n polisi o sicrhau bod opsiwn cost isel neu ddi-gost ar gael i fyfyrwyr ar gyfer unrhyw daith maes sy’n elfen orfodol o’r cwrs<br>• Caiff manylion am y cymorth ariannol sydd ar gael eu dosbarthu mewn digwyddiadau cyswllt (diwrnodau agored ac ymweld, ffeiriau AU, digwyddiadau diwylliannol cenedlaethol, digwyddiadau cyswllt ysgolion ac ati). Bydd ymgyrch ebost hefyd yn tynnu sylw at y ddarpariaeth sydd ar gael yn Aberystwyth.<br><br>Caiff unrhyw newidiadau eu cyfleu ar ein gwefan yn unol â chanllawiau’r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnata (CMA).</td>
</tr>
</table>


| *Darparu cymorth academaidd a lles o ansawdd uchel i fyfyrwyr o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol* | |
|---|---|
| **Amcan** | **Darpariaeth** |

| | |
|---|---|
| Gwella cyfraddau cadw drwy gynlluniau i ddarparu cymorth dwys wedi'i dargedu i fyfyrwyr yn ystod wythnosau cyntaf eu bywyd Prifysgol a chymorth parhaus wedi hynny, yn enwedig i'r rheini y dynodwyd eu bod yn grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol neu grwpiau yr ystyrir eu bod mewn perygl o dynnu'n ôl   | **Cymorth Myfyrwyr**<br>Byddwn yn parhau i fuddsoddi yn ein gwasanaethau cymorth myfyrwyr i sicrhau bod yr holl fyfyrwyr yn gallu manteisio ar gyngor a chymorth. Caiff y gwasanaethau sydd ar gael gan y Gwasanaethau Cymorth Myfyrwyr eu hysbysebu drwy sgyrsiau â myfyrwyr newydd, presenoldeb mewn diwrnodau agored, Ffair y Glas, llawlyfrau myfyrwyr ac mewn amrywiol ddigwyddiadau ar y campws. Mae ein gwasanaethau cymorth yn canolbwyntio ar gefnogi rhagoriaeth academaidd a hyrwyddo datblygiad cymdeithasol ac emosiynol, fel bod ein myfyrwyr yn gadael y brifysgol gyda set o sgiliau a galluoedd sy'n addas i'w bywyd ar ôl graddio.<br><br>**Ymgyfarwyddo i fyfyrwyr sydd ag Aspergers/awtistiaeth**<br>Parhau i gefnogi'r digwyddiad ymgyfarwyddo deuddydd i ddarpar fyfyrwyr sydd ag Aspergers/awtistiaeth a'u teuluoedd, i gynorthwyo â phontio'n rhwydd i fywyd Prifysgol. Mae hyn yn rhan o'n gwaith i sicrhau cyfle cyfartal i fyfyrwyr sydd ag anghenion cymorth penodol a chymhleth yn aml i sicrhau eu bod yn dal i allu dangos eu gallu a chyflawni eu potensial.<br><br>**Mentora**<br>Ar hyn o bryd rydym ni'n darparu dau gynllun mentora o fewn y Gwasanaethau Cymorth Myfyrwyr: mae un yn darparu cymorth arbenigol i ddysgwyr anabl a rhai sydd â gwahaniaethau dysgu penodol, tra bo'r Cynllun Mentora Arwyddbost yn cefnogi'r rhai sy'n gadael gofal a myfyrwyr eraill sy'n cael anawsterau wrth bontio i'r brifysgol. I gydnabod ansawdd y cymorth cafodd y ddau gynllun eu hachredu am dair blynedd gan y Sefydliad Mentora a Chyfeillio ym mis Mawrth 2015.<br>I gydnabod y buddiannau a ddaw yn sgil mentora yn 2017/18 rydym ni'n bwriadu:<br>• Ehangu'r cymorth sydd ar gael drwy'r Cynllun Mentora Arwyddbost i |


| | |
|---|---|
| | fyfyrwyr sydd wedi dieithrio<br>• Sefydlu cynlluniau mentora adrannol mewn rhagor o adrannau academaidd, gan ddarparu mentora i'r holl fyfyrwyr newydd yn yr adrannau hynny sy'n dewis manteisio ar y cynnig<br>• Ailymgeisio ar gyfer achrediad y ddau gynllun a chynnwys cynlluniau mentora adrannol ym mis Mawrth 2018<br><br>**Darpariaeth Iechyd Meddwl**<br>Rydym yn cydnabod yr angen am gymorth iechyd meddwl ar gyfer ein myfyrwyr, a thrwy gydol 2017/18, bydd ein gwasanaethau lles yn gweithio'n agos gydag Undeb y Myfyrwyr i ddod o hyd i'r ffordd orau o ddarparu gwasanaethau iechyd meddwl a lles i'n myfyrwyr.<br><br>**Cymorth Ariannol**<br>Mae tîm Cyngor, Gwybodaeth a Chyllid y Brifysgol yn gweinyddu cronfa Caledi Myfyrwyr y Brifysgol ac yn darparu ystod o gyngor a gwybodaeth i fyfyrwyr gyda sesiynau cynghori 'galw heibio' a dros y ffôn ac ebost |
| Gweithio mewn partneriaeth gydag Undeb y Myfyrwyr i ddarparu gwasanaethau cwnsela a chymorth a sicrhau bod llais y myfyriwr yn cael ei gynnwys ac yn gryf ac yn gallu cyflwyno adborth ar y profiad.<br><br> | **Grant Undeb y Myfyrwyr**<br>Yn ogystal â'r gwasanaethau cymorth a gynigir drwy'r Brifysgol, gall myfyrwyr gyrchu cymorth drwy Undeb y Myfyrwyr, gan gynnwys y Gwasanaeth Cynghori llinell flaen, Nawdd Nos, a chymorth academaidd drwy gefnogaeth dros 300 o gynrychiolwyr cwrs ac adran.<br><br>Byddwn ni'n gweithio i sicrhau ein bod yn dilyn ymarfer gorau a chanllawiau HEFCW wrth gyllido Undeb y Myfyrwyr i sicrhau ei bod yn gallu cynorthwyo myfyrwyr a chyfrannu'n effeithiol at ddatblygu profiad myfyriwr rhagorol yn Aberystwyth. |
| Hybu amgylchedd cynhwysol lle gall yr holl fyfyrwyr | **Hyrwyddwyr Cydraddoldeb** |

| | |
|---|---|
| ffynnu a sicrhau bod myfyrwyr sydd â nodweddion gwarchodedig yn cael yr wybodaeth a'r cymorth priodol.<br><br> | Yn ogystal â gweithgareddau a gefnogir drwy'r cynllun hwn i gefnogi cyfle cyfartal, rydym ni'n cydnabod yr angen i wreiddio cydraddoldeb ar draws ein holl weithgareddau ac annog diwylliant sy'n cydnabod anghenion yr holl staff a myfyrwyr a bod modd gwaredu unrhyw rwystrau a thuedd (boed ymwybodol neu anymwybodol). Mae rhan o'n gwaith i sicrhau cyfle cyfartal yn ddiwylliannol. Mae ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol a'n Cynlluniau Gweithredu Cydraddoldeb yn rhedeg hyd at 2020 ac yn egluro ein gwaith i sicrhau a hyrwyddo amgylchedd cynhwysol, gan roi gwerth ar amrywiaeth ein staff, myfyrwyr a chymuned.<br><br>Byddwn yn cefnogi'r gwaith hwn drwy fuddsoddi yn ein darpariaeth cydraddoldeb, gan gynnwys y rhwydwaith o Hyrwyddwyr Cydraddoldeb ar draws y Brifysgol, mewn digwyddiadau hyfforddi staff a gwell casglu data a chydweithio'n agos gydag Undeb y Myfyrwyr i sicrhau ein bod yn gallu darparu gwybodaeth a chymorth priodol i fyfyrwyr sydd â nodweddion gwarchodedig. Byddwn yn archwilio ein prosesau'n barhaus i ddynodi a gwaredu unrhyw feysydd o wahaniaethu anuniongyrchol a sicrhau bod Campws Aberystwyth yn lle diogel i bawb. |

| *Cynorthwyo myfyrwyr o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol i symud ymlaen at gyflogaeth neu astudiaethau pellach* | |
|---|---|
| **Amcan** | **Darpariaeth** |


| | |
|---|---|
| Gwella cyflogadwyedd a sgiliau ein graddedigion, yn enwedig y rheini y dynodir fel rhai heb gynrychiolaeth ddigonol mewn Addysg Uwch.<br><br> | **Cyngor Gyrfaoedd a Grwpiau heb Gynrychiolaeth Ddigonol**<br>Mae ein hamrywiol weithgareddau cymorth Gyrfaoedd ar gael i bawb ac yn cael eu disgrifio'n llawn yn yr adran Hyrwyddo Addysg Uwch y cynllun hwn isod, ond ceir manteision penodol i fyfyrwyr o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol a chaiff ein blaenoriaeth cyfle cyfartal ei chefnogi drwy ein staff gyrfaoedd sy'n adnabod anghenion grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol ac sy'n sicrhau bod y ddarpariaeth sydd ar gael yn ymateb i'r rhain:<br><br>• cynnig gwasanaethau cyngor ac arweiniad penodol mewn cydweithrediad â Chymorth Myfyrwyr ac ystyried y ffaith y bydd gan fyfyrwyr sydd â chyfalaf cymdeithasol isel anghenion penodol, gan gynnwys materion yn ymwneud â hyder a mynediad at wybodaeth, y mae'n rhaid eu diwallu er mwyn iddynt allu manteisio ar y cyfleoedd sydd ar gael iddynt<br>• cyfleoedd profiad gwaith Aber ar Alw i leddfu pwysau ariannol<br>• lleoliadau haf AberYmlaen i'r rheini nad oes ganddynt brofiad gwaith perthnasol blaenorol<br>• ymrwymiad i wella'r broses diwtorial i wella datblygiad personol a chydnabod sgiliau trosglwyddadwy<br>• prosiect Cyflawni drwy Brofiad Gwaith a gyllidir yn allanol Go Wales sy'n canolbwyntio ar gefnogi myfyrwyr o ardaloedd cyfranogiad isel mewn AU, myfyrwyr anabl, rhai sy'n gadael gofal, gofalwyr a myfyrwyr sydd â nodweddion gwarchodedig sydd â risg uwch o fod yn NEET ar ôl graddio<br><br>(Ceir cwestiwn dros lefel y cyllid fydd ar gael ar gyfer 2017/18 yn dilyn refferendwm yr UE).<br><br>Bydd ein menter newydd, Trywydd Gyrfa, yn darparu cymorth penodol i fyfyrwyr sydd â chyfalaf cymdeithasol isel a bydd yn gyfraniad sylweddol i gyfle cyfartal drwy ein galluogi i ganolbwyntio ymyriadau cyflogadwyedd ar y myfyrwyr hynny nad oes ganddynt y cyfleoedd a strwythurau cymorth sydd |

| | |
|---|---|
| | gan lawer o'u cymheiriaid. Bydd y math hwn o wybodaeth yn cael ei chipio gan Llwybr Gyrfa.<br><br>Rydym ni hefyd yn gweithio i ddatblygu rhagor o raglenni pedair blynedd sy'n cynnwys Blwyddyn integredig mewn Diwydiant i annog mwy o fyfyrwyr na fyddent efallai'n ystyried Blwyddyn mewn Diwydiant i elwa arno. Unwaith eto, problem trothwy yw hon – efallai nad oes gan fyfyrwyr â chyfalaf cymdeithasol isel yr hyder i ddewis blwyddyn mewn diwydiant na'r sgiliau i sicrhau lleoliad gwaith. Drwy ddarparu cyngor a chymorth gallwn helpu'r myfyrwyr hyn i lwyddo. |


| *Mesurau eraill i gefnogi grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol mewn Addysg Uwch.* | |
|---|---|
| **Amcan** | **Darpariaeth** |
